Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Cae'r Ffair Ltd
# 2 Church Street
# Gorslas
# Llanelli
# SA14 7NF

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Meithrinfa Cae'r Ffair Ltd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Cae'r Ffair Limited |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Meithrinfa Cae'r Ffair Limited |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sharon James |
| Person â gofal | Sharon James |
| Nifer y lleoedd | 39 |
| Amrediad oedran y plant | 0 i 11 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 12 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 12 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.00 – 6.00 Dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23/02/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 23/02/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/11/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymraeg yw iaith gyntaf y rhan fwyaf o'r plant yn y Feithrinfa. Mae ychydig o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.**

## Argymhellion

A1 Parhau i ledaenu'r arferion rhagorol ar draws pob agwedd o waith y lleoliad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn ac AGC yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob plentyn yn hapus dros ben ac yn teimlo'n hyderus iawn o fewn eu hamgylchedd chwarae a dysgu. Maent yn eithriadol o frwdfrydig ac yn ymhyfrydu yn y gweithgareddau eang sydd yn cael eu cynnig, gan ryngweithio'n rhagorol gydag ymarferwyr a'u cyfoedion. Mae bron pob plentyn yn dangos lefel arbennig o ddyfalbarhad yn ystod eu gweithgareddau.

Mae bron pob plentyn yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn teimlo'n hynod o ddiogel yn eu hamgylchedd. Dangosa'r rhan fwyaf arwyddion arbennig o gariad a hoffter tuag at eu gweithwyr allweddol wrth iddynt ddangos balchder yn eu gwaith a hefyd ar adegau o flinder. Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol iawn gyda phlant eraill. Maent yn mynd yn syth i eistedd wrth eu hochr gan sgwrsio a chwerthin yn hapus, ac yn ystod amser stori maent yn troi at eu cyfoedion i'w cofleidio.

Mae bron pob plentyn yn symud o un weithgaredd i'r llall yn llawn cyffro gan ddewis gweithgareddau sydd yn eu sbarduno, er enghraifft wrth iddynt chwilota am nadroedd o wahanol feintiau yn y jeli. Mae rhan fwyaf y plant yn cyfrannu syniadau am yr hyn maent yn dymuno ei wneud yn frwdfrydig iawn ac yn mynegi barn yn hynod aeddfed, er enghraifft wrth ddangos bodiau bawd i ddangos sut maent yn teimlo am wahanol weithgareddau.

Mae bron pob plentyn yn gwrando ar storïau am amser cynyddol, ac yn frwdfrydig iawn wrth ateb cwestiynau tra'n trafod lliwiau ac anifeiliaid yn y storïau 'Mr Croc'. Maent yn rhyngweithio'n effeithiol iawn wrth dderbyn cyfarwyddiadau, ac yn cyflawni'r heriau a osodir iddynt yn gwbl hyderus a brwdfrydig. Mae bron pob plentyn yn rhyngweithio'n wych gyda'i gilydd wrth aros eu tro. Maent yn rhannu adnoddau yn annibynnol wrth weithio fel tîm i greu adeiladwaith hynod o effeithiol a dychmygus. Mae bron bob plentyn yn helpu eu ffrindiau wrth ddatblygu medrau cyfathrebu a gwaith tîm yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn cydweithio'n feistrolgar wrth roi cratiau a phibellau at ei gilydd yn annibynnol er mwyn cael pêl i lifo i lawr i botyn islaw. Wrth ddathlu llwyddiant, mae bron pob un plentyn yn ymfalchïo'n hapus iawn wrth dderbyn canmoliaeth gan yr ymarferwyr a'u ffrindiau. Mae rhan fwyaf y plant yn annog a chefnogi ei gilydd yn naturiol a diffuant, er enghraifft wrth fodelu i blant eraill sut mae torri tost yn ei hanner, "Drycha, fel hyn ti'n neud e!"

Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau annibynnol yn hynod effeithiol. Maent yn dewis pa weithgaredd i'w chyflawni ac yn ymateb i heriau, er enghraifft wrth greu rhestrau o fwydydd ar fyrddau gwyn bach yn y gegin. Mae rhan fwyaf y plant yn uned y babanod yn dewis llyfrau'n annibynnol ac yn dod at ymarferwyr i ofyn am cael gwrando ar stori. Maent yn ymgymryd â thasgau 'helpwr heddiw' yn annibynnol gan wneud awgrymiadau i'w cyfoedion ynglŷn â'r gwahanol fwydydd iach sydd ar gael. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos aeddfedrwyd neilltuol wrth gymryd cyfrifoldeb am drefnu gweithgareddau ac wrth dacluso a chadw offer. Maent yn hynod gwrtais gyda'i gilydd ac yn amyneddgar iawn. Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau corfforol arbennig o gadarn, er enghraifft wrth ddringo i fyny wal ddringo bwrpasol gan arddangos medrau cydbwysedd arbennig o dda. Mae bron pob plentyn yn gwisgo a

dadwisgo eu hunain wrth fynd i'r tŷ bach yn hyderus ac yn sichau eu bod yn golchi eu dwylo gyda sebon a'u sychu yn gwbl annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd cryf neu gryf iawn yn eu medrau o'u mannau cychwyn yn y lleoliad.

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da iawn gyda'u medrau siarad a gwrando. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn gwbl naturiol gyda'u ffrindiau yn ystod gweithgareddau, ac yn defnyddio'r iaith gyda lefel uchel o gywirdeb gydag oedolion, er enghraifft wrth ddisgrifio neidr, 'mae'r neidr yn hir ac yn wyrdd,' neu 'un ddu yw hon.' Mae rhan fwyaf y plant yn gwrando'n aeddfed iawn, ac yn ystyried cyn ymateb i gwestiwn neu gynnig barn, er enghraifft wrth drafod hyd a lliwiau'r gwahanol nadroedd fel rhan o'u gwaith thema.

Mae medrau darllen cynnar bron bob plentyn yn datblygu'n dda iawn. Maent yn arddangos pleser gwirioneddol mewn llyfrau a thestunau gwahanol sy'n cael eu harddangos o amgylch y lleoliad. Maent yn mynd at lyfrau o'u gwirfodd, ac yn deall ble mae'r testun yn cychwyn, a chyfeiriad troi tudalennau. Mae bron pob plentyn yn trafod straeon yn hyderus, gan fynegi barn am gymeriadau a rhediad y stori. Maent yn trafod llyfrau yn hamddenol ac yn dewis mynd atynt yn ystod amser rhydd.

Mae bron bob plentyn yn creu marciau yn hyderus trwy ddefnyddio gwahanol offer tu mewn a thu allan i'r adeilad, er enghraifft wrth lunio eu henwau ar ddefnydd gan ddefnyddio brwsh paent a mwd. Mae llawer yn creu llythrennau yn fedrus ac yn falch o'u cynnydd eu hunain, er enghraifft wrth greu llythrennau ar ddail yr hydref. Mae bron pob un yn adnabod nifer cynyddol o lythrennau, ac yn eu hadnabod yn eu henwau eu hunain. Mae llawer yn datblygu medrau da iawn fel ysgrifenwyr cynnar ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o bwrpas ysgrifennu, er enghraifft wrth greu'r map meddwl yn trafod eu gwaith am yr hwyaden, a'r cywion hwyaid yn deor o'r wyau.

Mae bron pob plentyn yn trafod rhifau hyd at 10 yn gywir, gyda llawer yn cyfri hyd at 20 yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hynod effeithiol ac yn eu cymhwyso'n arbennig o lwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth gyfri cnau castan a thrwy greu patrymau ailadrodd gan ddefnyddio gwahanol siapiau dau ddimensiwn. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos dealltwriaeth gadarn o gymesuredd a nodweddion siapiau cyfarwydd, er enghraifft wrth greu patrymau lliwgar gyda dail yr hydref.

Mae gan bron bob plentyn fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cadarn iawn i gefnogi eu gwaith. Maent yn defnyddio camera digidol yn fedrus i dynnu lluniau o'u gwaith er mwyn ei werthuso maes o law, ac yn cofnodi eu teimladau a'u cwestiynau trwy ddefnyddio offer recordio syml.

Mae gan ran fwyaf y plant fedrau modur mân datblygedig iawn. Maent yn defnyddio sisyrnau yn gywir a diogel wrth dorri papur ar gyfer eu gwaith. Mae ganddynt gryfder a chydbwysedd da wrth ddefnyddio offer chwarae mawr tu allan. Er enghraifft, maent yn dringo fyny'r wal ddringo yn hyderus a gofalus, ac yn llithro i lawr y llithren yn fedrus, a llawn hwyl. Mae medrau creadigol bron pob un o'r plant yn dda iawn.

Maent yn creu darluniau a modelau effeithiol iawn. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o draw a rhythm wrth ganu rhigymau Cymreig traddodiadol, sydd yn cyfoethogi eu geirfa'n effeithiol dros ben.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd yn dewis peidio ymgymryd â thasgau penodol trwy adael iddynt ddewis eu tasgau eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n llwyddiannus iawn ar gyfer anghenion plant unigol. Maent yn caniatáu i'r plant wneud dewisiadau drostynt eu hunain ac eu hannog i ymgeisio a gwneud eu gorau wrth ymchwilio. Maent yn cyfathrebu'n hynod effeithiol ar lefel y plentyn gan annog y plant i arwain y chwarae cyn ymyrryd gyda chwestiynau pwrpasol i ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach. Mae bron pob ymarferydd yn rhoi clod i blant trwy ddathlu eu hymdrechion yn frwdfrydig a diffuant, gan ddweud 'Waw, mae hwnna'n ffantastig', a rhoi pump uchel iddynt wrth iddynt dynnu llun sebra am y tro cyntaf.

Mae ymarferwyr yn darparu cefnogaeth eithriadol o drylwyr i blant er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth o'u hemosiynau. Maent yn defnyddio amser cylch a storïau yn hynod lwyddiannus er mwyn trafod teimladau, er enghraifft wrth drafod sut mae'r anifeiliaid yn y stori yn teimlo, a sut gall eu ffrindiau eu helpu i deimlo'n well. Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr i sicrhau bod pob plentyn yn datblygu'n gyflawn. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd ardderchog sydd yn datblygu medrau annibynnol y plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn hollol gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn modelu ymddygiadau cadarnhaol yn llwyddiannus iawn.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n eithriadol o agos gyda'r rhieni a gwarchodwyr i ddiwallu anghenion y plant yn hynod lwyddiannus gan ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion meddygol, emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol. Maent yn adrodd yn ôl ar weithgarwch, cynnydd, gofynion ac anghenion y plant yn effeithiol mewn cofnod manwl dyddiol i rhieni. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn datblygu'n unigolion medrus, cyflawn.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan bron pob ymarferydd ddealltwriaeth gadarn iawn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn, ac yn defnyddio'u gwybodaeth o hyfforddiant perthnasol yn llwyddiannus i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus trwy ddarparu byrbrydau iachus ac amrediad llawn o giniawau maethlon. Maent yn gweithredu systemau glanhau ac asesu risg trwyadl, ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol effeithiol i adnabod a dileu unrhyw risg. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion manwl iawn o bob digwyddiad a damweiniau gan sicrhau bod rhieni ac ymarferwyr yn eu llofnodi.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang a chyfoethog o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion bron bob plentyn yn llwyddiannus iawn. Maent yn cynllunio gweithgareddau ymestynnol sydd yn herio plant o alluoedd gwahanol i ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu, er enghraifft wrth gyfri nifer y blociau oedd wedi eu gosod ar linyn fel rhan o weithgaredd creu neidr liwgar. Mae ymarferwyr wedi datblygu trefn gynllunio sydd yn hawdd i'w defnyddio ac yn rhoi strwythur hynod effeithiol i werthuso cynnydd plant tros gyfnod. Mae'n rhoi amlinelliad clir iawn o'r gwahanol brofiadau sy'n cael eu darparu ar gyfer y plant ym meysydd llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da neu dda iawn yn eu medrau, ac yn datblygu lefel arbennig o annibyniaeth.

Mae'r profiadau dysgu arbennig yn annog y plant i fod yn foesgar ac i barchu ei gilydd yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn oddefgar tuag at unrhyw un sydd angen cynhaliaeth yn ystod gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio tasgau cyffrous pen agored, sy'n annog y plant i feddwl drostynt eu hunain, er enghraifft wrth rewi gwahanol wrthrychau hydrefol a'u dadmer i'w gweld yn ymddangos o'r rhew drachefn. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn cydweithio'n aeddfed iawn, yn gwrando ar ei gilydd ac yn parchu syniadau plant eraill.

Mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd rhagorol i'r plant werthfawrogi amrywiaeth o ran hil, cred ac oedran, er enghraifft wrth i'r plant ddatblygu perthynas agos gyda thrigolion cartref henoed cyfagos. Defnyddir ymwelwyr ac ymweliadau yn effeithiol iawn i hyrwyddo chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, mae'r staff yn gwahodd ymwelwyr i ddod â'u hanifeiliaid i mewn er mwyn i'r plant gael eu gweld yn uniongyrchol. Maent hefyd yn trefnu ymweliadau â siopau lleol er mwyn deall pa offer sydd ar gael i ofalu am anifeiliaid anwes cyfarwydd. Mae'r profiadau hyn yn cyfoethogi dysgu'r plant yn llwyddiannus iawn.

Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn gweithredu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn rhagorol. Mae cydbwysedd ardderchog rhwng gweithgareddau wedi eu harwain gan oedolyn, a gweithgareddau pen agored lle mae'r plentyn yn gwneud penderfyniadau drosto'i hun. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn arddangos aeddfedrwydd neilltuol, a lefel arbennig o ddyfalbarhad.

Mae'r holl ymarferwyr yn holi'r plant yn gelfydd iawn gan roi amser meddwl iddynt cyn holi ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith hynod effeithiol a chyson, ac o ganlyniad, mae bron pob plentyn yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus a naturiol yn ystod eu gweithgareddau. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, gan adael i'r plentyn gymryd y rôl flaenllaw gyda'r dasg. Mae ymarferwyr yn hynod gelfydd wrth benderfynu pryd i ymyrryd yn y dysgu, a phryd i adael y plant i weithio'n annibynnol ac i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Mae'r hyblygrwydd hyn yn nodwedd ragorol ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol iawn wrth i'r ymarferwyr asesu cynnydd y plant tros gyfnod, a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Lle mae medrau plentyn yn ddatblygedig uwch na'r disgwyl, mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n gelfydd gan staff i hyrwyddo ac annog dysgu pellach, er enghraifft wrth annog defnyddio rhifau mwy, neu wrth ddefnyddio iaith fwy heriol wrth ddisgrifio gwahanol anifeiliaid y buont yn eu hastudio. Yn yr un modd, mae'r ymarferwyr yn cynnal a chefnogi plant sydd â medrau llai datblygeidig mewn gwahanol feysydd yn llwyddiannus dros ben. Maent yn addasu eu cefnogaeth yn hynod sensitif a chelfydd er mwyn magu hyder yr unigolyn.

## Yr amgylchedd: Rhagorol

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd cyfoethog, diogel a thu hwnt o safonol sy'n sbarduno chwarae a dysgu'r plant yn hynod llwyddiannus. Mae'r arddangosfeydd niferus yn ddeniadol i blant ac yn rhoi cyfleoedd hyfryd iddynt gyffwrdd a theimlo anifeiliaid y jyngl. Mae'r ardaloedd dysgu a chwarae ar draws y lleoliad yn tanio dychymyg y plant yn arbennig o dda ac yn eu galluogi i gymryd risgiau positif. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd ardderchog i blant ddatblygu medrau datrys problemau yn ogystal â medrau iaith, mathemateg a medrau modur mân, er enghraifft y babanod yn dod o hyd i'r siapiau a rhifau yn y jeli. Mae ardaloedd allanol yn hynod o ddiddorol ac yn darparu dewis cyfoethog o weithgareddau sy'n datblygu medrau corfforol ac amlsynhwyraidd yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth chwilota am siapiau yn y twba blawd llif ac arbrofi yn yr ardal gwrthrychau hydrefol.

Mae arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau darganfod, fel chwyddwydrau, gwrthrychau naturiol a geirfa hydrefol sy'n ymestyn profiadau a chyfleoedd dysgu'r plant yn llwyddiannus iawn. Mae gan y lleoliad arddangosfeydd hynod liwgar a rhyngweithiol sy'n dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Maent yn frith o labeli sbardunol ac yn cael eu cyplysu'n gelfydd gyda gwaith y plant. Mae labeli a lluniau effeithiol iawn a'r adnoddau sydd ar lefel y plant ym mhob ardal yn bwrpasol ac yn sbarduno dychymyg y plant yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer cyfoethogi'r chwarae a'r dysgu o fewn yr ardaloedd mewnol yn arbennig o effeithiol.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol yn arbennig oherwydd bod plant yn gallu dod at ei gilydd yn ystod adegau bwyd i gyd-eistedd ar gelfi addas i'w hoedran. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus yn ystod amseroedd newid cewynnau a mynd i'r tŷ bach. Yn ogystal, mae darpariaeth dda ar gyfer amseroedd cysgu a gorffwys ymhob ardal o'r feithrinfa.

Mae adnoddau'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd arbennig o lwyddiannus i blant ddatblygu dealltwriaeth o anghenion bobl yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu llawer o bobl mewn cymdeithas trwy ymdrin ag offer chwarae rôl fel cadair olwyn a ffrâm gerdded. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd gwych o storïau personol a moesol sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant o deimladau pobl eraill, er enghraifft wrth wrando ar storïau am garedigrwydd a chyfeillgarwch. Darperir ystod arbennig o adnoddau sy'n hybu dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i feddwl am, a chymharu, traddodiadau Cymru gyda thraddodiadau diwylliannau a chrefyddol eraill fel Diwali.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae ethos trawiadol a hynod gartrefol yn y lleoliad sy'n cael ei hyrwyddo yn hynod effeithiol trwy gydol pob agwedd o fywyd a gwaith y feithrinfa. Mae gan yr arweinydd weledigaeth gwbl glir ar gyfer darpariaeth o'r safon uchaf lle mae'r plant yn ffynnu mewn awyrgylch hapus a theuluol. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn hynod effeithiol gyda'r ymarferwyr a chyda rhieni. Mae'n arweinydd ysbrydolgar ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn ohoni hi ei hun a'i staff. Mae'n gweithredu egwyddor 'nid da lle gellir gwell' ym mhob agwedd o fywyd a gwaith Cae'r Ffair. Mae'n cefnogi ei staff yn ardderchog, ac yn eu cynnwys yn y broses barhaus o ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn

cyfrannu’n rhagorol at ddatblygu hyder a lles y plant. Maent yn cydweithio’n ardderchog fel tim, ac mae arweinwyr yn gwneud y gorau o’u gwahanol fedrau er mwyn datblygu’r ddarpariaeth yn barhaus. Mae gan y rhieni feddwl mawr o’r holl staff, ac maent yn gwerthfawrogi’r gofal unigol ac arbenigol sydd yn cael ei ddarparu ar gyfer eu plant.

Mae’r datganiad o fwriad yn ddogfen gynhwysfawr sy’n amlinellu’r gwasanaeth a gynigir yn hynod effeithiol. Mae’r arweinydd yn arwain trwy esiampl, ac yn craffu ar berfformiad ei holl staff ym mhob agwedd o’u gwaith. Mae’r rhieni a’r staff yn cyfrannu’n rheolaidd at weithdrefnau gwerthuso’r lleoliad. Maent yn derbyn holiaduron pwrpasol yn gyson, ac mae ganddynt hyder fod yr arweinydd a’r tîm yn gwrando ar eu barn. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu’n llwyddiannus gan y polisi drws agored, a’r cyfleoedd sydd ar gael i rieni rannu adborth yn anffurfiol. Mae’r arweinydd a’r tîm yn craffu’n barhaus ar eu dulliau gweithio, gan wneud addasiadau bwriadus. Er enghraifft, yn sgil trafodaethau gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, maent wedi ailstrwythuro eu dulliau cynllunio er mwyn eu gwneud yn fwy hyblyg i’w gweithredu. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr wedi creu diwylliant hynod lwyddiannus o arfarnu a gwella parhaus.

Mae’r tîm llawn yn hollol ymwybodol o’r blaenoriaethau gwelliant cyfredol, ac yn deall eu rôl hwy wrth eu cyflawni, er enghraifft wrth graffu ar ddealltwriaeth y plant o siapiau dau a thri dimensiwn a’u dealltwriaeth ohonynt mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y ddarpariaeth.

Mae’r arweinydd yn rheoli a chefnogi staff yn rhagorol. Mae’n gweithredu trefn rheoli perfformiad a gwerthuso yn gyson a theg, gan ymateb i anghenion hyfforddiant staff yn arbennig o effeithiol. Mae cyfleoedd niferus i ymarferwyr fynychu hyfforddiant buddiol, sydd yn cael effaith hynod gadarnhaol ar eu gwaith. Er enghraifft, bu nifer o staff yn dilyn hyfforddiant ‘llais y plentyn’ er mwyn magu annibyniaeth ymysg y plant.

Mae amrediad ardderchog o adnoddau ar gael yn y feithrinfa ac maent yn cael eu trefnu a’u rheoli’n llwyddiannus iawn er mwyn annog datblygiad y plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio’n llwyddiannus iawn gyda nifer fawr o bartneriaid er mwyn hybu lles a datblygiad medrau’r plant. Maent yn gwneud defnydd hynod effeithiol o adnoddau’r ardal leol a thu hwnt, er mwyn cyfoethogi’r profiadau dysgu. Mae ymarferwyr yn trefnu arbenigwyr a lleygwyr i ddod i mewn i’r lleoliad yn rheolaidd er mwyn dod â phrofiadau dysgu’r plant yn fyw, er enghraifft wrth drefnu ymweliadau gan gath er mwyn craffu ar ei siâp a’i symudiadau pan roeddent yn dysgu am y teigr.

# Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2020